

# Proses apelio haf 2020

## Pwy all apelio?

Gall canolfannau fel ysgolion neu golegau addysg bellach lle mae arholiadau fel arfer yn cael eu cynnal apelio i CBAC ar ran y dysgwr, sydd yr un fath ag yn y blynyddoedd blaenorol. Gall dysgwyr ofyn i'w canolfan wirio os oedden nhw wedi gwneud camgymeriad pan wnaethon nhw gyflwyno eu data asesu canolfan. Mewn rhai amgylchiadau, bydd ymgeiswyr preifat yn gallu apelio'n uniongyrchol i CBAC.

## Beth yw'r rhesymau dros apelio?

Bydd canolfannau'n gallu apelio i CBAC ar y sail eu bod wedi defnyddio'r data anghywir wrth gyfrifo gradd, fod y graddau a gyfrifwyd ac a gynhyrchwyd gan y model safoni ystadegol wedi'u dyrannu neu eu cyfleu yn anghywir a/neu fod rhywfaint o fethiant gweithdrefnol arall wedi bod ar ran CBAC.

## Beth yw rôl y ganolfan?

Bydd yn ofynnol i ganolfannau roi trefniadau ar waith i ddysgwyr ofyn am y wybodaeth a ddefnyddir gan CBAC i gyfrifo'r canlyniad ac i ofyn am gyflwyno apêl i CBAC. Dylai'r ganolfan hefyd roi cyfle i ddysgwyr apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y ganolfan i beidio â gofyn am y wybodaeth honno neu i beidio â chyflwyno apêl i CBAC.

## Beth sy'n digwydd os bydd apêl a ddygir gan ganolfan yn nodi gwall a fyddai'n arwain at radd is i ddysgwyr ac eithrio'r rhai a ddyfynnir yn yr apêl?

Os bydd hyn yn digwydd, ni fydd dysgwyr heblaw'r rhai a enwir mewn apêl yn gweld eu graddau'n cael eu gostwng.

## Beth yw'r weithdrefn pan gaiff apêl ei chyflwyno gan ganolfan?

Os yw CBAC yn cytuno bod gwall wedi'i wneud, bydd yn ei gywiro'n gyflym. Lle nad yw'n cytuno, bydd proses apelio lawnach yn mynd yn ei blaen.

## Pwy sy'n penderfynu ar ganlyniad yr apêl?

Caiff pob apêl ei hystyried gan bobl sydd â chymhwysedd priodol a heb unrhyw fuddiant personol yn y canlyniad. Bydd cam olaf y broses apelio yn cynnwys un person sy'n annibynnol ar CBAC a, lle y bo'n bosibl, yn cynnwys pobl nad oeddent yn rhan o'r broses o'r blaen yn arwain at gyhoeddi'r canlyniadau hynny.

## Beth yw rôl Cymwysterau Cymru?

Fel y rheolydd, ni sy'n gosod y rheolau y mae CBAC yn gweithredu oddi tanynt. Bydd CBAC yn cyhoeddi manylion am sut y bydd eu proses apelio yn gweithredu. Rydym hefyd yn cynnig cam olaf yr apêl, y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS) Mae'r EPRS yn:

- Adolygu i ba raddau yr oedd CBAC yn cydymffurfio â'n gofynion ac â'u polisiau a'u gweithdrefnau eu hunain;
- Gwirio a gywirwyd unrhyw gamgymeriad a nodwyd yn y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r graddau a gyfrifwyd a/neu yn y graddau a gyhoeddwyd.